# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 5 Chwefror 2018

Amser: 13.45 - 17.13

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4506

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Adam Price AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Mike Halstead, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Sophie Howe, Future Generations Commissioner<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru<br>Liz Lucas, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>Shan Morgan, Llywodraeth Cymru<br>Eurgain Powell, Office of the Future Generations Commissioner<br>Steve Robinson, Cyngor Caerdydd |

| | |
|---|---|
| | Andrew Slade, Llywodraeth Cymru<br>Arwel Staples, Denbighshire County Council |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Anthony Barrett - Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol<br>Matthew Mortlock<br>Mike Usher |
| Staff y Pwyllgor: | Anthony Barrett<br>Matthew Mortlock<br>Mike Usher<br>Fay Bowen (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

## 3 Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

3.1 Bu'r Pwyllgor yn holi Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru; Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, Llywodraeth Cymru; ac Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys, Llywodraeth Cymru, ynghylch cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru.

3.2 Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol i ysgrifennu at y Cadeirydd i egluro nifer o bwyntiau a godwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

## 4 Caffael Cyhoeddus: Gohebiaeth y Pwyllgor

4.1 Nodwyd yr ymatebion.

## 5 Caffael Cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth 1

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Liz Lucas, Pennaeth Caffael Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a Steve Robinson, Pennaeth Caffael Cyngor Caerdydd, fel rhan o'r ymchwiliad i gaffael cyhoeddus.

5.2 Cytunodd Liz Lucas i anfon gwybodaeth am y mathau o nwyddau a gwasanaethau y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi'u prynu drwy fframwaith Gwasanaeth Masnachol y Goron ac am werth y nwyddau a'r gwasanaethau hyn.

## 6 Caffael Cyhoeddus: Sesiwn Dystiolaeth 2 (Drwy fideogynhadledd)

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mike Halstead, Pennaeth Archwilio a Chaffael Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ac Arwel Staples, Rheolwr Caffael Strategol Cyngor Sir Ddinbych, fel rhan o'r ymchwiliad i gaffael cyhoeddus.

## 7 Caffael Cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth 3

7.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, a Dr Eurgain Powell o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fel rhan o'r ymchwiliad i gaffael cyhoeddus.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

8.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 9 Caffael Cyhoeddus: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

9.1 Trafodwyd y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 10 Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

10.1 Trafodwyd y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunodd yr Aelodau y dylai'r Clercod baratoi adroddiad drafft y byddant yn ei drafod ynghyd â'r wybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.